Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

Plismona yng Nghymru
Policing in Wales

CYMRU HEB DRAIS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Hunanwerthuso Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar gyfer prifysgolion a darparwyr addysg uwch yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/24 |
| **At:** | Prif Weithredwyr prifysgolion; Benaethiaid sefydliadau addysg uwch |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagir i wybodaeth:** | Savanna Jones \| em.cynhwsiant@medr.cymu |
| **Thema:** | VAWDASV. |


**Crynodeb:**

Mae'r ddogfen yma yn setio all y fframwaith hunanwerthuso Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais (VAWDASV) rhywiol i gefnogi brifysgolion i ganfod angen, cynllunio a ddarparu ymyyrraeth i atal ac ymateb i VAWDASV sy'n effeithio staff a myfyrwyr.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


Cyflwyniad: Ynglŷn â'r Offeryn ..... 2

Y Cefndir: Atal Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol yng Nghymru ..... 2

Diffiniadau ..... 5

Egwyddorion ..... 8

Offeryn Ystyriaethau Cynllunio Gweithgarwch ..... 11

Polisi ac arweinyddiaeth ..... 11

Deall yr angen - data a thystiolaeth ..... 13

Cymorth, ymyriadau a phartneriaethau presennol ar gyfer VAWDASV ..... 16

Ymdrin ag adroddiadau a datgeliadau ..... 18

Ymgysylltu a chydgynhyrchu ..... 20

Cyfeiriadau ..... 21


***Nodyn ar derminoleg:*** *Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r term VAWDASV (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol), sy'n cynnwys Trais yn Erbyn Menywod (a Merched), Cam-drin Domestig, Treisio a Thrais Rhywiol, Aflonyddu Rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, yr hyn a elwir yn Drais ar Sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod, Stelcio, Masnachu Pobl a mathau eraill o drais a brofir o ganlyniad i rywedd yr unigolyn neu yr effeithir arnynt gan rywedd yr unigolyn. Mae'n bwysig nodi y gall pobl o bob rhyw fod yn ddioddefwyr VAWDASV. Gall prifysgolion ddefnyddio termau eraill yn lle neu yn ogystal â VAWDASV ac mae cyfle i gyfeirio at y rhain yn yr Offeryn Cynllunio ac Ystyriaethau Gweithgarwch.*

## Cyflwyniad: Ynglŷn â'r Offeryn

1. Mae'r offeryn hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo prifysgolion yng Nghymru i nodi angen, i gynllunio a chyflawni ymyriadau sy'n anelu i atal ac ymateb i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) sy'n effeithio ar staff a myfyrwyr. Fe'i datblygwyd gan y Tîm Atal Trais, wedi'i seiliedu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â phrifysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a'r Tîm Glasbrint VAWDASV. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Offeryn wedi cael ei ddatblygu i gyfeirio at amodau rheoleiddio a chyllido Medr, fel y nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2021 (ceir rhagor o fanylion am y Ddeddf yn adran Gefndir y ddogfen hon).

2. Bwriedir i'r offeryn ystyriaethau cynllunio gael ei ddefnyddio gan brifysgolion i ymgorffori dull iechyd cyhoeddus a phrifysgol gyfan o ddylunio a chyflwyno gweithgarwch sy'n anelu i fynd i'r afael â VAWDASV. Mae dull iechyd cyhoeddus yn rhoi'r flaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal yn y lle cyntaf, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ar werthuso gweithgarwch i sicrhau bod yr effeithiau a ragwelwyd yn cael eu cyflawni ac effeithiau andwyol wedi'u lliniaru. Mae dull prifysgol gyfan yn cyd-fynd â dull iechyd cyhoeddus gan ei fod yn argymell y dylai pob agwedd ar leoliad prifysgol gydweithio i hyrwyddo a chefnogi pawb o fewn poblogaeth y brifysgol, gan sicrhau mynediad teg at wasanaethau ac ymatebion cyson i faterion waeth ymhle a sut y bydd rhywun yn ceisio neu'n derbyn arweiniad. Mae dull prifysgol gyfan hefyd yn pwysleisio'r angen i gydnabod amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr, gan gynnwys, ymhlith eraill, myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr ar leoliad a myfyrwyr aeddfed a'r boblogaeth o staff, gan gynnwys staff gweinyddol, cyfadran a'r uwch arweinyddiaeth, er mwyn sicrhau'r mynediad teg at wasanaethau y cyfeirir ato uchod.

3. Gyda'r dulliau hyn mewn golwg, mae'r offeryn yn tywys defnyddwyr drwy'r ystyriaethau allweddol o ran yr hyn sydd angen ei gael mewn lleoliad prifysgol er mwyn cynllunio a chyflwyno gweithgarwch. Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys ystyried polisïau a strategaethau presennol, deall data sydd ar gael y gellid eu defnyddio i nodi'r broblem/problemau a sefydlu sut i gyrraedd rhanddeiliaid allweddol o fewn fforymau neu sianeli presennol neu newydd.

4. Mae'r offeryn yn cynnwys set o egwyddorion er mwyn helpu i sicrhau dull cyson o gyflawni gweithgarwch sy'n anelu i atal VAWDASV neu ymateb i hynny ledled Cymru, gan gydnabod y tirlun y mae pob prifysgol yn gweithredu ynddo, sy'n unigryw ac yn aml yn amrywiol. Datblygwyd yr egwyddorion hyn ar y cyd â phrifysgolion Cymru ac maent wedi'u seilio ar egwyddorion Glasbrint VAWSASV Cymru, y Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a'r Fframwaith Cymru Heb Drais.

## Y Cefndir: Atal Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol yng Nghymru

5. Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn broblem fawr o safbwynt iechyd y cyhoedd, ac yn fater o gyfiawnder troseddol a hawliau dynol, ac mae'n creu ystod o ganlyniadau andwyol i iechyd a llesiant ar hyd oes yr unigolyn (Addis a Snowdon, 2021).

6. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol y gall Cymru weithredu ynddo yn golygu bod y wlad mewn sefyllfa unigryw i atal ac ymateb i VAWDASV a'i effeithiau andwyol. Pwrpas Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yw gwella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd a VAWDASV, yn ogystal â gwella'r trefniadau i ddiogelu dioddefwyr a goroeswyr a chefnogi pawb y mae trais o'r fath yn effeithio arnynt. Yn rhan o hyn, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y sector addysg bellach yng Nghymru i gyfrannu at ddiben y Ddeddf, gan gynnwys atal ac ymateb i VAWDASV. Yn ogystal, un o amcanion allweddol Strategaeth genedlaethol VAWDASV 2022-2026, a gynhyrchwyd o ganlyniad i Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015, yw rhoi'r flaenoriaeth i atal ac ymyrryd yn gynnar, gan gydnabod bod atal yn hollbwysig er mwyn torri'r cylch o drais o fewn teuluoedd a chymunedau.

7. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfraith unigryw sy'n rhwymo cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyfreithiol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y wlad. Er mwyn cyflawni saith nod llesiant, mae'r Ddeddf yn cynnwys pum ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar atal, cydweithredu, cyfranogiad, integreiddio a meddwl am y tymor hir. Yn sgil Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sy'n cyd-fynd â phump o'r nodau llesiant y cyfeirir atynt uchod, sefydlwyd Medr, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, gan gynnwys ei ddyletswyddau strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal, annog cyfranogiad a hyrwyddo cydweithio a chydlyniant mewn addysg drydyddol.

8. Dylai unrhyw waith a gyflawnir yng Nghymru gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2025 i 2026 (Llywodraeth Cymru, 2025) sy'n anelu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Rhaid cyflawni'r gwaith hwnnw hefyd yn unol â Safonau'r Gymraeg, a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg, a bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dewis gwneud hynny.

9. Yn ogystal, mae strategaeth, polisi ac ymyrraeth ar draws cyrff llywodraeth, statudol ac anstatudol yn tynnu sylw at yr ymrwymiad yng Nghymru i hyrwyddo diwylliant o ymyrraeth ddiogel ac atal trais, ac mae gan brifysgolion ran allweddol i'w chwarae yn hynny o beth.

> Rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2020, myfyrwyr oedd 30% o holl ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol yn y DU.

10. Medr yw'r corff rheoleiddio sy'n rhoi canllawiau i brifysgolion ar sut y gallant gyflawni'r ddyletswydd a nodir ar eu cyfer yn Neddf VAWDASV (Cymru) 2015 a Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Medr ei Gynllun Strategol 2025-2030 (Medr, 2025). Mae'r cynllun hwn yn nodi uchelgeisiau i hyrwyddo ecwiti a chyfle cyfartal a chyfrannu at ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, trais a cham-drin ar sail rhywedd, yn ogystal â chyfrannu at gyflawni Cymru wrth-hiliol a sicrhau amgylcheddau dysgu a gwaith cynhwysol i bawb. Mae'r adroddiad Changing the Culture gan Prifysgolion y DU (2016) yn rhoi fframwaith strategol er mwyn cynorthwyo prifysgolion i ymdrin ag aflonyddu rhwng myfyrwyr ac ymateb i hynny. Mae'n cynnwys pum egwyddor i atal ac ymateb i bob math o aflonyddu y gall pob prifysgol eu haddasu i'w defnyddio yn eu lleoliadau eu hunain. Ers iddo gael ei gyhoeddi, mae canllawiau wedi cael eu creu i ategu'r

fframwaith ar sut i ymdrin â chamymddwyn honedig gan fyfyrwyr a allai hefyd fod yn drosedd (Prifysgolion y DU, 2024).

> Rhwng Mawrth 2018 a Mawrth 2020, roedd 52% o ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol yn bobl ddeurywiol.

11. Yng Nghymru, mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru, 2022) wedi'i seilio ar werthoedd gwrth-hiliaeth ac yn galw am beidio goddef dim anghydraddoldeb hiliol. Mae'n cefnogi'r weledigaeth ar gyfer cenedl wrth-hiliol, lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi am bwy ydyn nhw a'r cyfraniad y maent yn ei wneud.

> Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, roedd pobl o grwpiau ethnig du a lleiafrifol yn fwy tebygol o gael eu bwlio yn ysgolion y DU, o brofi troseddau casineb ac aflonyddu yn gysylltiedig â hil, caethwasiaeth fodern ac ecsbloetio, a 6 gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd gan rywun yng Nghymru a Lloegr.

12. Bydd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl: Mae'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn nodi ein fframwaith 10 mlynedd trawslywodraethol sy'n mynegi'r uchelgeisiau a'r deilliannau rydym am eu cyflawni, er mwyn sicrhau y gall pobl anabl ffynnu fel aelodau cyfartal o gymdeithas yng Nghymru, a herio gwahaniaethu a rhagfarn. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod anghydraddoldeb rhywedd a hil, hiliaeth sefydliadol a gwahaniaethu yn ffactorau risg ar gyfer trais, a bod risg, natur ac effaith trais yn cael eu profi'n anghyfartal ymhlith gwahanol grwpiau o bobl (Snowdon et al, 2023). Gan hynny, dylai'r holl waith i atal trais gael ei ategu gan werthoedd gwrth-hiliaeth, gwrth-wahaniaethu a chynhwysiant.

13. Mae'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022) yn hyrwyddo dull o atal sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd ac sy'n ystyriol o drawma. Mae'r Fframwaith hefyd yn hyrwyddo cyfres o bum egwyddor sy'n sail i bedair lefel ymarfer i ddisgrifio'r gwahanol rolau a allai fod gan bobl a sefydliadau wrth gefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan drawma, gan gynnwys trais. Mae'r Fframwaith Cymru Heb Drais (Snowdon et al., 2023) yn egluro sut y gall Cymru atal trais ymhlith pobl dan 25 oed drwy ddull iechyd y cyhoedd sy'n seiliedig ar system gyfan. Mae'r Fframwaith hwn yn disgrifio naw strategaeth y gellir eu cyflwyno ar draws amryw o leoliadau i atal trais ar raddfa'r unigolyn, y gymuned a chymdeithas. Mae hefyd yn adnodd defnyddiol er mwyn ystyried cyfleoedd i atal ar draws lleoliadau a gwasanaethau er mwyn gwella iechyd a llesiant unigolion a chymunedau ar hyd eu hoes. O ran ymyriadau i atal VAWDASV, mae amrywiaeth o ymyriadau wedi cael eu gweithredu a'u gwerthuso dros y degawd diwethaf yng Nghymru, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion. Dyma enghreifftiau: The Bystander Initiative; Ask and Act, Identification and Referral to Improve Safety (IRIS) a Change that Lasts (Addis and Snowdon, 2021).

> Rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2020, roedd 65% o holl ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol yn y DU yn anabl.

14. Mae'r Offeryn hwn wedi ceisio cydnabod elfennau allweddol a chysylltiedig y gweithgarwch uchod, er mwyn cynorthwyo prifysgolion yng Nghymru nid yn unig i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf VAWDASV (Cymru) (2015) ond hefyd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i greu amgylcheddau sy'n ddiogel, yn hygyrch ac yn deg a lle gall staff, myfyrwyr, ymgeiswyr ac ymwelwyr ffynnu.

## Diffiniadau

15. Ar gyfer y canllawiau hyn, mae'r dehongliad o derminoleg o'r fath yn adlewyrchu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Fel y nodwyd uchod, gall prifysgolion ddefnyddio terminoleg wahanol neu ychwanegol at y rhai y cyfeirir atynt isod.

16. Argymhellir bod prifysgolion yn cytuno i ddefnyddio'r un derminoleg â'i gilydd i ddibenion adrodd a choladu data, er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fonitro tueddiadau mewn VAWDASV ledled Cymru. Mae hi hefyd yn bwysig sicrhau bod terminoleg a diffiniadau yn cael eu deall a'u cytuno gan bawb o fewn y brifysgol a rhai y mae gweithgarwch y brifysgol yn effeithio arnynt. Felly, gall y derminoleg a ddefnyddir i adrodd a choladu data felly fod yn wahanol i'r derminoleg a ddefnyddir wrth gyfathrebu â myfyrwyr a staff ynghylch VAWDASV, fel bod pobl yn gallu rhannu eu profiadau mewn iaith sy'n adlewyrchu eu profiadau. Os yw'r derminoleg yn amrywio, argymhellir bod prifysgolion yn creu geirfa ddwyieithog o dermau i adlewyrchu hyn, ac yn rhoi cyfrif am wahaniaethau rhwng termau yn y Gymraeg ac yn Saseneg.

17. Wrth reoli datgeliadau gan fyfyrwyr, efallai y byddwch yn sylwi bod yr iaith a ddefnyddir yn wahanol i'r diffiniadau ffurfiol isod. Mae'n bwysig nodi bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn croestorri â mathau eraill o drais, ymddygiad ymosodol a gwahaniaethu, gan gynnwys hiliaeth, homoffobia, trawsffobia ac ableddiaeth. I'ch helpu i adnabod datgeliadau posibl o gam-drin, mae enghreifftiau o ymadroddion neu ymddygiadau y gallech glywed amdanynt gan fyfyrwyr, ac y dylid eu hystyried, hefyd wedi'u cynnwys:

| Term | Diffiniad | Gallai swnio fel neu ymddangos fel... |
|---|---|---|
| **Aflonyddu** | Pan fydd person yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywun arall ac yn gwybod hynny, neu lle dylai wybod hynny. Mae'r ymddygiad yn cynnwys ymddygiad llafar. | Boed yn y cnawd neu ar-lein, gall hyn ymddangos fel: Creu amgylchedd gelyniaethus, fel cyswllt corfforol digroeso (gan gynnwys cusanu, cyffwrdd â'r bronnau neu'r organau cenhedlu), gwneud sylwadau rhywiol a defnyddio iaith rywiol eglur, gofyn am ffafrau rhywiol, ystumiau fel heclo, cilwenu ac ystumiau eraill awgrymog. |
| **Cam-drin** | Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol | Taro, crogi, cleisiau [cudd], tueddiadau i fwlio, siarad yn ddifrïol am rywun yn rheolaidd, dilyn, gorfodi newid neu gyfyngu ar arferion gwario, rheolaeth |

| Term | Diffiniad | Gallai swnio fel neu ymddangos fel... |
|---|---|---|
| | | drwy orfodaeth fel monitro cyfeillgarwch ac amser y tu allan i'r tŷ. Defnyddio rhyw fel ffordd o reoli rhywun (dal gweithredoedd rhywiol yn ôl neu eu gorfodi – gweler trais rhywiol isod) |
| **Cam-drin ariannol** | Dwyn arian neu eiddo arall, eich twyllo, eich rhoi chi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall a chamddefnyddio arian neu eiddo arall sydd gennych chi | Rheoli arian – gwneud sylwadau ar wariant, ychwanegu cardiau banc ffisegol at eu waled ffôn eu hunain i'w defnyddio fel y mynnent, cymryd eich taliadau benthyciad myfyriwr, benthyg arian gennych yn gyson a pheidio byth â'i dalu'n ôl, gofyn bob amser i gael defnyddio eich cerdyn credyd yn lle defnyddio'u cerdyn eu hunain. |
| **Cam-drin Domestig** | Camdriniaeth lle mae'r dioddefwr yn gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r sawl sy'n cam-drin. Gall cysylltiad olygu:<br>• Eu bod wedi bod yn briod neu'n bartneriaid sifil i'w gilydd, mewn perthynas deuluol barhaus, wedi cytuno i briodi ei gilydd, wedi cael perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu os yw'r naill a'r llall yn rhiant i blentyn neu â chyfrifoldeb rhiant/wedi bod â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.<br>• Eu bod yn byw, neu wedi byw, ar yr un aelwyd, er enghraifft os yw'r naill fel arfer yn byw gyda'r llall fel aelod o'i deulu, a/neu y gellid disgwyl yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gyda'r person arall hwnnw<br>• Eu bod yn berthnasau Gall perthynas olygu rhiant, taid neu nain, plentyn, ŵyr neu wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai, nith ac unrhyw un sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas, partneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus | Gweler y diffiniadau uchod ac isod am gyd-destun pellach o'r modd y gallai hyn ymddangos. Gall pethau y gallech ystyried eu harchwilio gyda'ch myfyrwyr gynnwys:<br><br>• Ydy eich partner yn genfigennus neu'n feddiannol?<br>• Ydyn nhw'n eich swyno chi un funud, cyn troi'n gamdriniol neu fwlio y funud nesaf?<br>• Ydyn nhw'n rheoli'r hyn rydych chi'n ei wisgo, ble rydych chi'n mynd, neu bwy rydych chi'n ei weld?<br>• A ydynt bob amser yn eich difrïo neu'n gwneud ichi deimlo'n ddrwg amdanoch chi'ch hun?<br>• Ydyn nhw'n chwarae gemau meddyliol ac yn gwneud ichi amau eich barn neu hyd yn oed eich pwyll?<br>• Ydyn nhw'n rhoi pwysau arnoch chi i gael rhyw pan nad ydych chi'n teimlo fel gwneud hynny?<br>• Ydych chi'n teimlo fel petaech chi ar binnau drwy'r |

| Term | Diffiniad | Gallai swnio fel neu ymddangos fel... |
|---|---|---|
| | | amser yn ceisio osgoi eu gwylltio?<br>• Ydyn nhw'n olrhain eich symudiadau neu eich cyfryngau cymdeithasol?<br>• Ydyn nhw'n eich dychryn i'ch rheoli chi? |
| **Camfanteisio rhywiol** | Rhywbeth a wneir i berson arall sy'n cyd-fynd â throseddau fel y nodir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 yng Nghymru a Lloegr | Camddefnyddio neu geisio camddefnyddio sefyllfa fregus i ddibenion rhywiol. Gallai hyn ymddangos fel cyfnewid arian neu nwyddau am ryw. Gallai ymddangos fel blacmelio neu wneud elw (boed yn ariannol neu'n gymdeithasol) yn sgil rhywun sy'n cyflawni gweithredoedd rhywiol. |
| **Stelcio** | Patrwm o ymddygiad sefydlog ac obsesiynol sy'n ailadroddus, yn barhaus, yn ymwthiol ac yn achosi ofn trais neu'n ennyn braw a gofid yn y dioddefwr (Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh, 2020) | Ymddangos mewn lleoliadau annisgwyl, yn rheolaidd. Aros y tu allan i lety neu gartref rhywun, ysbïo ar weithgareddau, dilyn rhywun. Anfon blodau neu anrhegion eraill yn rheolaidd, cyfathrebu digroeso, difrodi eiddo. Gall achosi straen aruthrol i unigolyn sy'n profi'r ymddygiad hwn ac i raddau helaeth mae'n niwed a throsedd seicolegol yn ogystal â chorfforol. |
| **Trais ar sail rhywedd** | Trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. Gall hefyd ymwneud â mathau penodol o niwed fel anffurfio organau cenhedlu benywaidd, neu orfodi rhywun (boed hynny drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un a yw wedi'i rhwymo mewn cyfraith ai peidio). | Byddai pob math o drais a cham-drin a ddiffinnir yn yr adran hon yn dod o dan y thema trais ar sail rhywedd.<br><br>O ran anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), edrychwch ar Ddeddf FGM 2003 am ddiffiniad clir. Gall hyn edrych fel torri neu anffurfio labia majora, labia minora neu glitoris merch yn gyfan gwbl neu unrhyw ran ohonynt.<br><br>Gall priodi dan orfod edrych fel pwysau gan y teulu, neu gytundeb a wneir heb i rywun roi caniatâd. Efallai y bydd rhywun yn dweud bod 'disgwyl' iddynt |

| Term | Diffiniad | Gallai swnio fel neu ymddangos fel... |
|---|---|---|
| | | briodi rhywun, neu eu bod yn teimlo nad oes ganddyn nhw ddewis. Mae'n anghyfreithlon yn y DU.<br>• Mwy o wybodaeth |
| **Trais rhywiol** | Camfanteisio rhywiol, treisio, ymosod, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol. | Yn ogystal â throseddau treisio ac ymosodiad rhywiol, gall trais rhywiol ymddangos fel pwysau, manipiwleiddio, ymddygiad bygythiol a thwyll i gael cyswllt rhywiol â rhywun h.y. nid oes cydsyniad gweithredol na gwirioneddol. Mae treisio neu ymosod yn rhywiol ar rywun bob amser yn drosedd ac mae'r bai bob amser ar y troseddwr. Nid yw peidio cydsynio bob amser yn ymddangos fel dweud na. Gall ymddangos fel bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau eraill (gormod i gydsynio'n glir i ryw). Gall olygu bod yn ddistaw neu awgrymiadau eraill corfforol neu eiriol os yw rhywun yn teimlo dan ormod o bwysau, neu'n rhy ofnus i ddweud na. |

## Egwyddorion

### a. Mabwysiadu dull prifysgol gyfan

18. Mae'r gweithgarwch yn cydnabod bod gan bob unigolyn ran i'w chwarae wrth sicrhau bod y brifysgol yn ddiogel i bawb, a rhaid i systemau prifysgol gydweithio i sicrhau cefnogaeth gyson a phriodol i bob aelod o gymuned y brifysgol. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol ar gyfer yr egwyddor hon, er mwyn rhoi cyfeiriad strategol a sicrhau bod egwyddorion VAWDASV wedi'u hymgorffori mewn polisi, proses a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Er eu bod wedi'u gosod yng nghyd-destun iechyd meddwl, mae'r pedwar maes ym model Stepchange Prifysgolion y DU (2023) yn ddefnyddiol er mwyn deall dull prifysgol gyfan. Dyma nhw:

   i. Dysgu: Mae prifysgolion yn trawsnewid bywydau drwy ddysgu. Mae dysgu ar lefel uwch yn cynnwys her a ffyrdd newydd o feddwl: gall gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles rhywun ar hyd eu hoes. Fodd bynnag, gall y dull o gynllunio, trefnu a chyflwyno dysgu greu profiad cadarnhaol neu negyddol.
   ii. Cefnogi: Ar hyn o bryd mae prifysgolion yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth. Gall gwasanaethau gynnwys darpariaeth i fyfyrwyr a staff neu i fyfyrwyr yn unig. Gallant gynnwys cwnsela, timau iechyd meddwl,

ymyriadau digidol, timau bywyd preswyl, llinellau cymorth a chymorth ar ôl oriau.

iii. Gwaith: Mae iechyd meddwl da yn greiddiol i ymgysylltiad, cynhyrchiant a chreadigrwydd y staff, a hefyd yn ffactor amddiffynnol rhag profi trais. Mae dull prifysgol gyfan yn dwyn ynghyd iechyd meddwl a lles staff a myfyrwyr.

iv. Byw: Mae'r amgylcheddau, y diwylliannau a'r mannau rydym yn byw ac yn astudio ynddynt yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles. Dylai prifysgolion ystyried sut i hyrwyddo bywyd, diwylliant, amgylchedd, cymuned a llety iach. (Prifysgolion y DU, 2023)

19. **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?** Mae gan bobl fynediad cyfartal at gymorth ni waeth sut, pryd neu pam y maen nhw'n ei geisio. Mae dull cyson (ymyriadau wedi'u halinio fel bod pobl yn derbyn yr un neges ar draws gwahanol leoliadau a dulliau) o atal ar draws y brifysgol gyfan yn golygu bod ymddygiadau cadarnhaol yn fwy tebygol o gael eu mabwysiadu drwy newid normau cymdeithasol.

**b. Cynnwys cymunedau**

20. O gynllunio i gyflawni, arweinir gweithgarwch gan y rhai y bwriedir iddo eu helpu, sy'n derbyn strwythur a chefnogaeth. Mae'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn y brifysgol i gydlynu gweithgarwch atal VAWDASV yn cymryd camau i sicrhau y gall pobl gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, gwerthuso a hwyluso yn y ffyrdd sy'n gweithio orau iddyn nhw, fel bod gweithgarwch yn seiliedig ar brofiadau amrywiol ac yn berthnasol iddynt. Dylai'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni gweithgarwch atal VAWDASV hefyd fanteisio ar arbenigedd partneriaid y trydydd sector a cheisio cynnwys yr arbenigwyr hyn yn rhagweithiol mewn cyfleoedd partneriaeth a chydweithio.

21. **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?** Dysgu gan eich cymuned: staff, myfyrwyr, goroeswyr ac arbenigwyr, gan gynnwys o'r trydydd sector. Mae'r gweithgarwch yn berthnasol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, gan fod y gymuned darged wedi cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf. Mae pobl yn fwy ymroddedig i'r gweithgarwch ac eisiau ei weld yn llwyddo, am iddynt gymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu.

**c. Adeiladu ar dystiolaeth**

22. Mae gweithgarwch yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan gynnwys tystiolaeth o ymchwil, data a gwaith ymgysylltu. Caiff gweithgarwch ei werthuso i ddeall y broses weithredu a'i heffaith. Rhennir canfyddiadau oddi mewn i gymuned y brifysgol a thu hwnt er mwyn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth. Mae'r derminoleg yn gyson o fewn y brifysgol ac yn cyd-fynd â phrifysgolion eraill yng Nghymru i gefnogi dealltwriaeth o'r tueddiadau mewn trais yng Nghymru.

23. **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?** Gall arweinwyr gweithgarwch ddangos pam eu bod wedi datblygu gweithgarwch drwy rannu ymchwil, data neu ganlyniadau ymgysylltu. Lle bynnag y bo modd, bydd arweinwyr gweithgarwch yn cynllunio i werthuso wrth ddatblygu'r gweithgarwch, gan fanteisio ar arbenigedd o fewn cymuned eu prifysgol, a hefyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i werthuso.

**d. Bod yn ystyriol o drawma a chanolbwyntio ar yr unigolyn**

24. Datblygir gweithgarwch gyda chydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r profiadau niweidiol a thrawmatig y gall pobl o bob oed ddod i gysylltiad â nhw a dioddef eu heffeithiau. Datblygir gweithgarwch yn unol â Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.

25. **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?** Lle bynnag y bo modd, bydd pobl yn cael dewis sut i ymgysylltu â gweithgarwch, a lle bo modd, pa weithgarwch y maen nhw'n ymgysylltu ag ef, fel nad yw'r gweithgarwch yn achosi niwed pellach. Bydd gan bob aelod o staff fynediad at hyfforddiant ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma, a bydd yr holl bolisïau a phrosesau yn gysylltiedig ag ymdrin ag adroddiadau a chwynion yn cael eu llunio drwy ddefnyddio dull sy'n ystyriol o drawma.

### e. Bod yn dryloyw

26. Caiff y rhesymau am y gweithgarwch eu cyfleu'n glir wrth bawb yng nghymuned y brifysgol. Bydd cefnogaeth neu wybodaeth bellach yn gysylltiedig â gweithgarwch ar gael i bobl yn rhwydd. Bydd yr holl fyfyrwyr a staff yn cytuno gyda'i gilydd ar dermau i ddisgrifio gweithredoedd ac achosion o VAWDASV, a bydd y termau hynny'n cael eu defnyddio bob tro wrth gyfathrebu ac ym mhob gweithgarwch, gan gynnwys wrth ymdrin ag adroddiadau a chwynion (fel y nodir uchod, efallai y bydd angen geirfa er mwyn helpu i gefnogi dealltwriaeth gyson oddi mewn i brifysgolion a rhyngddynt). Mae'r brifysgol yn dryloyw ynghylch mynychder, profiadau a chanfyddiadau ynghylch VAWDASV yn ei lleoliad, gan sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth berthnasol yn sail ar gyfer penderfyniadau a gweithredu. Mae prifysgolion yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo gwasanaethau cymorth, gwybodaeth a chyngor.

27. Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol? Gall arweinwyr gweithgarwch ddangos yn rhwydd ymhle y mae cael hyd i'r broses benderfynu ar gyfer y gweithgarwch ac egluro ymhle y mae rhagor o wybodaeth ar gael. Mae'r brifysgol yn sicrhau bod data, ymchwil a chynlluniau gweithredu ar gyfer VAWDASV ar gael ac yn hygyrch, gan gynnwys prosesau adrodd a disgyblu lle bynnag y bo modd (gan gydbwyso hyn â dyletswyddau eraill hefyd).

### f. Bod yn gynhwysol a hygyrch

28. Gall pobl elwa ar weithgarwch mewn ffyrdd sy'n ystyrlon iddyn nhw, waeth beth fo'u hunaniaeth, eu cefndir neu eu hamgylchiadau. Mae pobl sy'n cyflwyno gweithgarwch atal VAWDASV yn cymryd camau i ymgysylltu â'r rhai sy'n aml heb gael cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu, a bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei fonitro i sicrhau mynediad teg i'r holl staff a'r myfyrwyr. Mae pobl sy'n cyflwyno gweithgarwch atal VAWDASV hefyd yn ystyried y gwahanol leoliadau lle gall staff a myfyrwyr brofi VAWDASV, gan gynnwys ar-lein, mewn llety, ar leoliadau, secondiadau yn ogystal â lleoliadau adloniant nos, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch atal yn cynnwys y profiadau hynny.

29. **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?** Gall pawb gyfrannu at ddatblygu gweithgarwch ataliol os ydynt y dymuno, a bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau na chaiff cyfranogiad gorfodol ei atal gan fod y dyluniad a'r dull o gyflwyno'n anhygyrch. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar ben hynny, dylai'r brifysgol allu dangos tystiolaeth o'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod gweithgarwch atal yn cyrraedd pawb, nid

y rhai sydd eisoes wedi ymrwymo i fynd i'r afael â VAWDASV yn unig. Gall arweinwyr gweithgarwch ddangos tystiolaeth o'r modd y mae pobl o gefndiroedd a phrofiadau amrywiol wedi cymryd rhan yn y gweithgarwch. Caiff addasiadau a wnaed er mwyn cynnwys unigolion a grwpiau yn well eu cofnodi ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol.

## Offeryn Ystyriaethau Cynllunio Gweithgarwch

30. Mae'r adnodd hwn yn eich galluogi i hunanasesu dulliau a gweithgarwch atal trais eich prifysgol yn seiliedig ar bum maes allweddol. Y bwriad yw helpu prifysgolion i ddatblygu eu dulliau a deall ble y gall gwelliannau fod yn angenrheidiol neu ble y gellid rhannu gwersi a ddysgir. Argymhellir eich bod yn hunanasesu gan ddefnyddio'r diffiniadau canlynol:

- Yn dechrau: Gweithgarwch cynnar/cyfyngedig; mae'r dulliau'n anffurfiol neu'n anghyson.
- Yn datblygu: Mae rhai strwythurau ar waith; mae gweithgarwch yn mynd rhagddo ond nid yw'n gyson nac yn digwydd drwy'r sefydliad cyfan eto.
- Yn cael eu gwreiddio: Mae'r dulliau'n dod yn arferion safonol; perchnogaeth gliriach, gwell cysondeb, cynnydd mewn defnydd.
- Wedi'u sefydlu: Arferion clir drwy'r sefydliad cyfan; wedi'u hintegreiddio mewn trefniadau llywodraethu a gwaith cynllunio; yn cael eu defnyddio a'u deall fel mater o drefn.
- Yn arwain: Arferion sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ac sy'n arwain y sector; gwelliant parhaus gan ddefnyddio tystiolaeth a phrofiad bywyd; dylanwad y tu hwnt i'r sefydliad.

## Polisi ac arweinyddiaeth

31. Fel gweithwyr proffesiynol yng Nghymru, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i fod yn ymwybodol o'r tirlun deddfwriaethol a strategol o'n hamgylch sy'n llywio ein rôl ac yn rhoi'r ysgogiadau sydd eu hangen arnom i weithredu gwelliannau.

32. Er mwyn sicrhau dull croestoriadol – dylech fod yn ymwybodol o uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Strategaeth Iechyd Meddwl a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

33. Dylai'r adran hon eich helpu i nodi a oes polisïau neu strategaethau yn bodoli eisoes y mae angen eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gweithgarwch/ymyriadau VAWDASV.

| **Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau ymateb effeithiol i faterion sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhowch fanylion yma (e.e. a oes gwahanol bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr a staff, y cylch adolygu, sut y gellir cael mynediad atynt a sut y caiff pobl wybod amdanynt): | | | | |
| **Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys mesurau i ddeall eu heffeithiolrwydd** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. sut y caiff polisïau eu mesur, a sut y gwneir gwelliannau angenrheidiol): | | | | |
| **Mae polisïau sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu cyd-gynhyrchu ag arbenigwyr a chynrychiolwyr o blith y staff a'r myfyrwyr.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. dylech gynnwys y broses ar gyfer datblygu polisi, asiantaethau allanol rydych chi'n cydweithio â nhw e.e. gwasanaethau arbenigol y trydydd sector): | | | | |
| **Mae gennym strategaeth neu gynllun gweithredu ar gyfer atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd ar gael i staff, myfyrwyr, partneriaid, ymwelwyr a phartïon perthnasol eraill** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. mae'r dogfennau hyn ar gael ar eich gwefan): | | | | |
| **Mae pob aelod o staff sydd mewn rôl arweinyddol yn deall eu rôl o ran atal ac ymateb i VAWDASV, gan gynnwys aelodau'r Corff Llywodraethu** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u neilltuo, a yw'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd): | | | | |

| **Rydym wedi cytuno ar ddiffiniadau a dealltwriaeth gyffredin o fathau o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac yn defnyddio diffiniadau cytunedig wrth gasglu data ac adrodd yn fewnol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. ydych chi'n defnyddio'r diffiniadau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015) | | | | |

## Deall yr angen - data a thystiolaeth

34. Dylai'r adran hon helpu i nodi pa ddata a thystiolaeth y gall y brifysgol eu cyrchu i ddeall y materion o flaen myfyrwyr a staff mewn perthynas â VAWDASV. Bydd hyn o gymorth i nodi'r hyn y gallai fod angen i'r gweithgarwch ymdrin ag ef. Mae'n bwysig cydnabod bod myfyrwyr mewn mwy o berygl o brofi VAWDASV o gymharu â gweddill y boblogaeth (Snowdon et al, 2023).

35. Yn ogystal, gall categorïau cymdeithasol gan gynnwys ethnigrwydd, rhywedd, dosbarth, rhywioldeb, anabledd a nodweddion gwarchodedig eraill fod yn uniongyrchol gysylltiedig â mynychder, effaith a phrofiad bywyd o drais ymhlith grwpiau gwahanol o'r boblogaeth. Gan hynny, rhaid i waith dadansoddol a strategol ar gyfer atal trais fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau lluosog a chroestoriadol hyn sy'n llunio'r cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol y mae trais yn digwydd ynddo.

| **Gan gydnabod nad oes angen profi'n ffurfiol bod datgeliadau'n cael eu cofnodi, rydym yn casglu/mae gennym fynediad at ddata dienw ar nifer y datgeliadau a'r adroddiadau'n gysylltiedig â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. rhennir y data â sefydliadau ac/neu mae'r data ar gael i'r cyhoedd): | | | | |
| **Rydym yn casglu/mae gennym fynediad at ddata ar ganlyniadau datgeliadau ac adroddiadau sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. rhennir y data â sefydliadau ac/neu mae'r data ar gael i'r cyhoedd): | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Rydym yn casglu/mae gennym fynediad at ddata ar brofiadau o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nad ydynt wedi'u datgelu na'u hadrodd yn ffurfiol. e.e. data o arolygon dienw** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Rydym yn casglu/mae gennym fynediad at ddata cymdeithasol a demograffig i gefnogi dealltwriaeth groestoriadol o fynychder, profiadau ac effaith Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac rydym yn defnyddio'r data hynny i lywio dulliau atal ac ymyriadau ac adnoddau wedi'u targedu** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Rydym yn casglu/mae gennym fynediad at ddata ar wahanol fathau o VAWDASV a brofir gan fyfyrwyr ac/neu'r staff** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. a yw systemau casglu data yn caniatáu i gasglwyr fanylu drwy opsiynau neu destun agored ac a ellir tynnu/adrodd ar yr wybodaeth hon?) | | | | |
| **Mae gennym fecanweithiau i rannu data dienw yn fewnol ac yn allanol (e.e. ar draws prifysgolion) i wella dealltwriaeth o dueddiadau VAWDASV yn unol â pholisïau a chytundebau rhannu data.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. mae gennych gytundebau rhannu data ar waith â phrifysgolion neu sefydliadau eraill fel yr heddlu, a ydych chi'n darparu adroddiadau rheolaidd ar ddata VAWDASV i'ch Corff Llywodraethu?) | | | | |
| **Mae gennym ddulliau strwythuredig, sy'n ystyriol o drawma, i ymgysylltu â safbwyntiau grwpiau amrywiol o fyfyrwyr a staff ynghylch eu canfyddiadau** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **a'u profiadau o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Rydym yn monitro i ba raddau y mae adborth a mewnbwn gan fyfyrwyr a staff yn gynrychioliadol o boblogaeth y myfyrwyr/staff** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. casglu gwybodaeth gymdeithasol-ddemograffig myfyrwyr/staff sy'n cymryd rhan) | | | | |
| **Mae gennym fynediad at werthusiadau o weithgarwch blaenorol a arweiniwyd gan y brifysgol neu ein partneriaid yn ogystal ag ymarfer a gyflawnwyd gan brifysgolion a sefydliadau eraill ledled Cymru a'r DU.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. rhowch ddolenni i'r gwerthusiadau): | | | | |
| **Mae gennym yr adnoddau i gynnal gwerthusiadau o weithgarwch prifysgol ac rydym yn gwneud hynny'n rheolaidd, lle bynnag y bo modd, gan fanteisio ar arbenigedd o fewn y brifysgol neu'n ehangach** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Mae gennym fynediad at ymchwil i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, neu gallwn gynnal ymchwil o'r fath, i gefnogi datblygiad ymgyrchoedd neu weithgarwch arall** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |

| |
|---|
| |

## Cymorth, ymyriadau a phartneriaethau presennol ar gyfer VAWDASV

36. Gan gydnabod y gall ymyriadau gynyddu nifer y datgeliadau ac/neu adroddiadau am VAWDASV (Irvine-Collins et al., 2022) dylai'r adran hon helpu i nodi a oes digon o gefnogaeth ar waith i ymdrin â chynnydd yn y galw. Gan gydnabod hefyd fod dull cyson (ymyriadau lluosog wedi'u halinio a'u cydlynu neu un ymyrraeth a gyflwynir dro ar ôl tro) yn effeithiol (Addis a Snowdon, 2021) dylai'r adran hon hefyd fod o gymorth i nodi a ellir cysylltu ymgyrch â rhaglenni gwaith sy'n bodoli eisoes.

| **Mae gennym dîm ymroddedig ar gael i roi cefnogaeth i fyfyrwyr a sicrhau mesurau diogelu priodol mewn perthynas â VAWDASV.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. mae'r tîm yn gweithio hyd eithaf ei allu, mae asesiadau risg yn cael eu cynnal neu nid oes tîm pwrpasol ond rydych chi'n defnyddio cefnogaeth allanol yn ôl yr angen): | | | | |

| **Mae gan staff fynediad at gymorth arbenigol gan weithwyr proffesiynol neu dimau sy'n arbenigo mewn VAWDASV, yn fewnol neu'n allanol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. cynhelir asesiadau risg, gweithredir polisïau diogelu): | | | | |

| **Mae gwybodaeth am linellau cymorth a gwasanaethau wedi'u harddangos yn glir ar y Campws ac ar-lein.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. mae gennych gofnod o leoliad yr wybodaeth hon, a bydd archwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod yr wybodaeth yn dal ar gael) | | | | |

| **Mae gwybodaeth am linellau cymorth a gwasanaethau wedi'u harddangos yn glir ar byrth y myfyrwyr a'r staff.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |

| |
|---|
| Rhowch fanylion yma: (e.e. mae gennych gofnod o leoliad yr wybodaeth hon, a bydd archwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod yr wybodaeth yn dal ar gael) |

| **Gan ddefnyddio data i sefydlu patrymau neu dueddiadau o ran VAWDASV, rydym yn cynyddu cymorth a gwaith hyrwyddo gwasanaethau cymorth ar bwyntiau allweddol pan geir risg uwch o VAWDASV** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. ceir mwy o hyrwyddo yn ystod Wythnos y Glas) | | | | |

| **Mae hyfforddiant ar wylwyr gweithredol ar gael i bob myfyriwr a phob aelod o staff.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. a yw'r hyfforddiant wedi'i dargedu yn seiliedig ar angen a sut mae'r angen hwnnw wedi'i sefydlu, a yw'n ofynnol i bob myfyriwr sy'n cofrestru a'r holl staff): | | | | |

| **Mae hyfforddiant arall i godi ymwybyddiaeth ar gael i bob myfyriwr a phob aelod staff sy'n gysylltiedig â VAWDASV, sy'n cynnwys gwybodaeth am gefnogaeth a chyfeirio.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. hyfforddiant ar gydsyniad, perthnasoedd iach neu wrywdod cadarnhaol): | | | | |

| **Rydym eisoes yn defnyddio ymgyrchoedd sy'n atal VAWDASV (e.e. #Diogeliddweud, Ymgyrch lawn) neu gyfeirio i gefnogaeth (h.y. ymgyrchoedd Byw Heb Ofn).** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |

| **Rydym yn ymwybodol o drefniadau partneriaeth lleol ac/neu genedlaethol, fel Byrddau a Rhwydweithiau, ac yn cymryd rhan weithredol ynddynt.** |
|---|

| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
|---|---|---|---|---|
| Rhowch fanylion yma (e.e. mae gennych gysylltiadau â grwpiau dyletswydd trais difrifol lleol neu gyswllt cyson â'r heddlu, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ynghylch VAWDASV) | | | | |
| **Caiff ymyriadau a gwasanaethau cymorth a gynhelir neu a gomisiynir gan y brifysgol eu darparu drwy ddull sy'n ystyriol o drawma** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. ydych chi wedi adolygu gwasanaethau presennol yn unol â Fframwaith Cymru Ystyriol o Drawma a Phecyn Cymorth TrACE?) | | | | |

## Ymdrin ag adroddiadau a datgeliadau

37. Yn ogystal â'r gefnogaeth a ddarperir gan y brifysgol i'r holl staff a'r myfyrwyr, mae cael prosesau datgelu ac adrodd cefnogol, sy'n ystyriol o drawma i'r rhai sy'n profi VAWDASV yn hanfodol er mwyn lleihau niwed a meithrin ymddiriedaeth o fewn cymuned y brifysgol (Gao et al., 2023). Yn ogystal â chefnogaeth ar lefel y boblogaeth gyda'r nod o atal, dylai gwasanaethau adrodd a datgelu ganolbwyntio ar ddioddefwyr/goroeswyr a chael eu harwain gan arbenigwyr.

| **Ar ôl derbyn datgeliadau, cânt eu cofnodi a chaiff myfyrwyr eu cyfeirio i staff arbenigol (mewnol neu allanol).** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. cyfeirir myfyrwyr i drydydd parti, cofnodir y datgeliad ac adroddir arno) | | | | |
| **Cyn gynted ag y gwneir datgeliad, cynhelir asesiad risg gan roi mesurau rhagofalus ar waith i liniaru risg, hyd yn oed pan na wneir adroddiad ffurfiol.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. pwy sy'n cynnal yr asesiad risg a'r hyn y mae'n ei gynnwys) | | | | |

| **Pan fydd myfyriwr yn gwneud datgeliad, mae'r brifysgol yn cymryd camau i sicrhau bod y myfyriwr yn gallu aros mewn addysg / llety, hyd yn oed pan na wneir adroddiad ffurfiol.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. dilynir gweithdrefn gytunedig sydd wedi'i chofnodi) | | | | |
| **Pan fydd aelod o staff yn gwneud datgeliad, mae'r brifysgol yn cymryd camau i sicrhau bod yr aelod o staff yn gallu parhau yn y gwaith, gan wneud addasiadau rhesymol yn ôl yr angen, hyd yn oed pan na wneir adroddiad ffurfiol.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. dilynir gweithdrefn gytunedig sydd wedi'i chofnodi) | | | | |
| **Mae gennym brosesau ar y cyd sy'n fodd i ddiogelu a rhoi cefnogaeth i bob parti pan fydd adroddiadau ffurfiol yn cael eu gwneud, yn ystod ac ar ôl unrhyw broses cyfiawnder troseddol.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. mae gennych broses diogelu ac asesu risg ar y cyd) | | | | |
| **Mae gennym berthynas sefydledig â gwasanaethau cymorth arbenigol lleol a phartneriaid eraill (e.e. sefydliadau'r trydydd sector, yr heddlu neu'r awdurdod lleol), ac mae'r perthnasoedd hyn yn ein galluogi i ymateb ar y cyd pan geir achosion o VAWDASV, a hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i atal yr achosion hynny.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. a yw'r berthynas yn galluogi ymatebion ar y cyd i VAWDASV yn unig neu ydych chi'n cydweithio'n rheolaidd ar weithgarwch atal e.e. ymgyrchoedd) | | | | |
| **Caiff gwasanaethau adrodd a datgelu a gynhelir neu a gomisiynir gan y brifysgol eu darparu drwy ddull sy'n ystyriol o drawma** | | | | |

| Yn dechrau | Yn datblygu | Yn cael ei gwreiddio | Wedi'u sefydlu | Yn arwain |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. ydych chi wedi adolygu gwasanaethau presennol yn unol â Fframwaith Cymru Ystyriol o Drawma a Phecyn Cymorth TrACE?) | | | | |

## Ymgysylltu a chydgynhyrchu

38. Gan gydnabod bod ymyriadau ar eu mwyaf effeithiol pan gânt eu cyd-gynhyrchu â'r gynulleidfa darged (Walker et al., 2023), dylai'r adran hon fod o gymorth i ganfod a oes gan y brifysgol fecanweithiau ar waith i sicrhau mai llais myfyrwyr ac/neu'r holl staff sy'n cael y prif sylw wrth ddylunio a chynnal ymgyrchoedd.

| **Mae gennym fforwm/fforymau sefydledig i gynrychiolwyr myfyrwyr a goroeswyr gael rannu eu syniadau.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau | Yn datblygu | Yn cael ei gwreiddio | Wedi'u sefydlu | Yn arwain |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Mae gennym fforwm/fforymau sefydledig i'r holl staff gael rhannu eu syniadau.** | | | | |
| Yn dechrau | Yn datblygu | Yn cael ei gwreiddio | Wedi'u sefydlu | Yn arwain |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Mae fforymau ar gyfer ymgysylltu wedi'u llywio gan drawma ac yn rhoi'r flaenoriaeth i gynhwysiant a hygyrchedd** | | | | |
| Yn dechrau | Yn datblygu | Yn cael ei gwreiddio | Wedi'u sefydlu | Yn arwain |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. ydych chi wedi adolygu fforymau presennol yn unol â Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+?) | | | | |
| **Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu ag amrywiaeth o staff a myfyrwyr, ac mae gennym fecanweithiau i gofnodi gweithgarwch ymgysylltu** | | | | |

| **er mwyn adolygu a sicrhau mynediad teg, yn enwedig i grwpiau wedi'u hymyleiddio** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: (e.e. ydych chi'n cofnodi nodweddion gwarchodedig pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu i sicrhau bod safbwyntiau'n gynrychioliadol o'ch prifysgol) | | | | |
| **Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd ag Undeb y Myfyrwyr ynghylch gwaith ar y cyd ar VAWDASV a materion yn gysylltiedig â VAWDASV y maent yn ymwybodol ohonynt o fewn ein prifysgol.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma: | | | | |
| **Mae gennym wybodaeth am fentrau a arweinir gan fyfyrwyr sy'n bodoli i fynd i'r afael â VAWDASV.** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. rydych chi'n ymwybodol o fentrau, rydych chi'n cynnal trafodaethau â'r rhai sy'n arwain y mentrau hyn): | | | | |
| **Mae gennym gytundebau partneriaeth â phartneriaid sy'n arbenigo mewn VAWDASV, i'n cefnogi i ymgysylltu â myfyrwyr (e.e. gwasanaethau cymorth arbenigol lleol).** | | | | |
| Yn dechrau ☐ | Yn datblygu ☐ | Yn cael ei gwreiddio ☐ | Wedi'u sefydlu ☐ | Yn arwain ☐ |
| Rhowch fanylion yma (e.e. y cyllid a neilltuwyd i'r bartneriaeth): | | | | |

## Cyfeiriadau

Addis, S., & Snowdon, L. (2021). *Beth sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)? Asesiad systematig o'r dystiolaeth.* Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

*Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2025 i 2026.* (2025). Llywodraeth Cymru.

*Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.* (2023). Llywodraeth Cymru.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* anaw 2015. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/welsh

*Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*, anaw 3. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/welsh

Gao, H., Chen, PF., Yao, L. (2023). *Trauma-Informed Practices in Higher Education: A Comprehensive Literature Review (2025-2023)*. International Journal of Higher Education, 12(6). https://doi.org/10.5430/ijhe.v12n6p149

Grŵp Atebolrwydd Allanol y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. (2022). *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Llywodraeth Cymru.* https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-2022

Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru, a Straen Trawmatig Cymru. (2022). *Cymru sy'n Wybodus am Drawma: Dull cymdeithasol o ddeall, atal a chefnogi effeithiau trawma ac adfyd.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Irvine-Collins, E., Moore, E., Cao, K., Curley, M., Ablaza, C., & a Heard, E. (2023). *Promoting compassionate responses to disclosures of sexual violence in university settings: Exploring the impact of a social marketing campaign.* Violence Against Women, 29(9), 1832–1852. https://doi.org/10.1177/10778012221134822

Llywodraeth Cymru. (2025). *Cynllun hawliau pobl anabl: 2025 i 2035* (drafft).

Medr. (2025). *Cynllun strategol 2025–2030.* https://www.medr.cymru/wp-content/uploads/2025/03/Medr-Cynllun-Strategol-2025-2030.pdf

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nawm 1. https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/welsh

Prifysgolion y DU. (2016). *Changing the Culture.* Prifysgolion y DU. https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-report

Prifysgolion y DU. (2018). *Changing the Culture: Tracking progress Prifysgolion y DU.* https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-tracking-progress

Prifysgolion y DU. (2020). T*ackling racial harassment in higher education report. Prifysgolion y DU.* https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/tackling-racial-harassment-higher

Prifysgolion y DU. (2021a). *Tackling Islamophobia and anti-Muslim hatred: Practical guidance for universities*. Prifysgolion y DU. https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/tackling-islamophobia-and-anti-muslim

Prifysgolion y DU. (2021b). *Tackling antisemitism: Practical guidance for universities. Prifysgolion y DU*. https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/tackling-antisemitism-practical-guidance

Prifysgolion y DU. (2022a). *Changing the culture: Sharing personal data in harassment cases*. Prifysgolion y DU. https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-sharing-personal-data

Prifysgolion y DU. (2022b). *Changing the culture: Tackling staff-to-student sexual misconduct*. Prifysgolion y DU. https://www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/features/tackling-harassment/changing-culture-tackling-staff-student

Prifysgolion y DU. (2023). *Stepchange: Mentally healthy universities*. Prifysgolion y DU.

Prifysgolion y DU. (2024). *How to handle alleged student misconduct: Case studies.* Prifysgolion y DU.

Snowdon, L., Parry, B., Walker, A., & a Barton, E. (2023). *Cymru heb drais: Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc*. Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Walker, A., Barton, E., Parry, B., & a Snowdon, L. (2023). *Atal trais rhywiol yn economi'r nos: Annog dynion i fod yn wylwyr gweithredol - Adroddiad Gwerthuso*. Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh. (2020). *What is stalking?* https://www.suzylamplugh.org/what-is-stalking